



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2022 Rhif 375 (Cy. 94)

2022 No. 375 (W. 94)

**TRAFNIDIAETH A
GWEITHFEYDD, CYMRU**

**TRANSPORT AND WORKS,
WALES**

Gorchymyn Rheilffordd Eryri
Caernarfon a Dinas (Trosglwyddo a
Llywodraethiant) 2022

The Caernarfon and Dinas Welsh
Highland Railway (Transfer and
Governance) Order 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn galluogi trosglwyddo'r pwerau a'r rhwymedigaethau statudol yng Ngorchymyn Rheilffordd Ysgafn Rheilffordd Caernarfon 1997 o Ffestiniog Holdings Limited i Festiniog Railway Company ac yn diwygio Deddf Festiniog Railway 1869 i addasu trefniadau llywodraethiant y Festiniog Railway Company.

Nid yw'r Gorchymyn yn awdurdodi adeiladu gweithfeydd.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order enables the transfer of the powers and statutory obligations in the Caernarfon Railway Light Railway Order 1997 from Ffestiniog Holdings Limited to the Festiniog Railway Company and amends the Festiniog Railway Act 1869 to modify the governance arrangements of the Festiniog Railway Company.

The Order does not authorise the construction of works.

2022 Rhif 375 (Cy. 94)

**TRAFNIDIAETH A
GWEITHFEYDD, CYMRU**

**Gorchymyn Rheilffordd Eryri
Caernarfon a Dinas (Trosglwyddo a
Llywodraethiant) 2022**

Gwnaed 23 Mawrth 2022
Yn dod i rym 25 Mawrth 2022

Mae cais wedi ei wneud i Weinidogion Cymru yn unol â Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006(1) am Orchymyn o dan adrannau 1 a 5 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992(2) (“Deddf 1992”).

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu gwneud Gorchymyn i roi effaith i’r cynigion sydd yn y cais gydag addasiadau nad ydynt, yn eu barn hwy, yn gwneud unrhyw newid sylweddol i’r cynigion.

Cyhoeddwyd hysbysiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru yn y London Gazette ar 22 Mawrth 2022.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1 a 5 o Ddeddf 1992, a pharagraffau 8, 15 ac 16 o Atodlen 1 iddi, sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(3), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

- (1) O.S. 2006/1466, a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/439, O.S. 2011/556, O.S. 2011/2085, O.S. 2012/147, O.S. 2012/1658, O.S. 2012/2590 ac O.S. 2013/755.
- (2) 1992 p. 42. Diwygiwyd adran 1 gan baragraffau 51 a 52 o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29), diwygiwyd adran 5 gan O.S. 2012/1659.
- (3) Mae pwerau o dan adrannau 1 a 5 o’r Ddeddf, a pharagraffau 8, 15 ac 16 o Atodlen 1 iddi, bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i’r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Roedd y pwerau wedi eu breinio’n flaenorol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) trosglwyddwyd y swyddogaethau i Weinidogion Cymru.

2022 No. 375 (W. 94)

**TRANSPORT AND WORKS,
WALES**

**The Caernarfon and Dinas Welsh
Highland Railway (Transfer and
Governance) Order 2022**

Made 23 March 2022
Coming into force 25 March 2022

An application has been made to the Welsh Ministers in accordance with the Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) Rules 2006(1) for an Order under sections 1 and 5 of the Transport and Works Act 1992(2) (“the 1992 Act”).

The Welsh Ministers have determined to make an Order giving effect to the proposals comprised in the application with modifications which in their opinion do not make any substantial change in the proposals.

Notice of the Welsh Ministers’ determination was published in the London Gazette on 22 March 2022.

Accordingly, the Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 1 and 5 of, and paragraphs 8, 15 and 16 of Schedule 1, to the 1992 Act, now exercisable by them(3), make the following Order:

- (1) S.I. 2006/1466, amended by S.I. 2010/439, S.I. 2011/556, S.I. 2011/2085, S.I. 2012/147, S.I. 2012/1658, S.I. 2012/2590 and S.I. 2013/755.
- (2) 1992 c. 42. Section 1 was amended by paragraphs 51 and 52 of Schedule 2 to the Planning Act 2008 (c. 29), section 5 was amended by S.I. 2012/1659.
- (3) Powers under sections 1 and 5 of, and paragraphs 8, 15 and 16 of Schedule 1 to, the Act, are now vested in the Welsh Ministers so far as they are exercisable in relation to Wales. They were previously vested in the National Assembly for Wales by virtue of article 2 and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). By virtue of paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32), they were transferred to the Welsh Ministers.

RHAN 1
RHAGARWEINIAD

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheilffordd Eryri Caernarfon a Dinas (Trosglwyddo a Llywodraethiant) 2022 a daw i rym ar 25 Mawrth 2022.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y Cwmni” (“*the Company*”) yw The Festiniog Railway Company (rhif cwmni ZC 000203) a'i brif swyddfa yw Gorsaf yr Harbwr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NF;

ystyr “Daliannau” (“*Holdings*”) yw Ffestiniog Railway Holdings Limited (rhif cwmni 02555576) y mae ei swyddfa gofrestredig yn Hen Eglwys y Santes Fair, Stryd yr Eglwys, Tremadog, Porthmadog, y Deyrnas Unedig, LL49 9RA;

ystyr “Deddf 1869” (“*the 1869 Act*”) yw Deddf Festiniog Railway 1869(1);

ystyr “y dyddiad trosglwyddo” (“*the transfer date*”) yw'r dyddiad y breinir y rheilffordd neu unrhyw ran ohoni yn y Cwmni yn rhinwedd cychwyn a wneir rhwng Daliannau a'r Cwmni;

mae i “y rheilffordd” yr ystyr a roddir i “the former railway” fel y'i diffinnir yn erthygl 2 (dehongli) o Orchymyn Rheilffordd Ysgafn Rheilffordd Caernarfon 1997(2) ac mae'n cynnwys yr holl diroedd a gweithfeydd sy'n ymwneud â hi;

ystyr “y trosglwyddai” (“*the transferee*”) yw unrhyw berson y lesir neu y gwerthir y rheilffordd, neu unrhyw ran ohoni, iddo o dan y pwerau a roddir gan erthygl 4 (trosglwyddo'r rheilffordd gan y Cwmni);

ystyr “yr ymgymeriad a drosglwyddwyd” (“*the transferred undertaking*”) yw pa faint bynnag o'r rheilffordd a lesir neu a werthir o dan y pwerau a roddir gan y Gorchymyn hwn.

(2) Brasgywir yw unrhyw hydoedd ac unrhyw gyfeiriadau a nodir yn unrhyw ddisgrifiad o'r rheilffordd.

(3) Mae unrhyw ddeddfiadau yr awdurdodwyd adeiladu a gweithredu'r rheilffordd drwyddynt yn cael effaith yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn.

(1) 1869 p. cxli.
(2) O.S. 1997/2534.

PART 1
PRELIMINARY

Title and commencement

1. The title of this Order is the Caernarfon and Dinas Welsh Highland Railway (Transfer and Governance) Order 2022 and it comes into force on 25 March 2022.

Interpretation

2.—(1) In this Order—

“the 1869 Act” (“*Deddf 1869*”) means the Festiniog Railway Act 1869(1);

“the Company” (“*y Cwmni*”) means The Festiniog Railway Company (company number ZC 000203) whose principal office is Harbour Station, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NF;

“Holdings” (“*Daliannau*”) means Ffestiniog Railway Holdings Limited (company number 02555576) having its registered office at Former St. Mary's Church, Church Street, Tremadog, Porthmadog, United Kingdom, LL49 9RA;

“the railway” means “the former railway” as defined in article 2 (interpretation) of the Caernarfon Railway Light Railway Order 1997(2) and includes all lands and works relating to it;

“the transfer date” (“*y dyddiad trosglwyddo*”) means the date on which the railway or any part of it is vested in the Company by virtue of an agreement made between Holdings and the Company;

“the transferee” (“*y trosglwyddai*”) means any person to whom the railway, or any part of it, is leased or sold under the powers conferred by article 4 (transfer of railway by the Company);

“the transferred undertaking” (“*yr ymgymeriad a drosglwyddwyd*”) means so much of the railway as is leased or sold under the powers conferred by this Order.

(2) All lengths and directions stated in any description of the railway are approximate.

(3) Any enactments by which the construction and operation of the railway were authorised have effect subject to the provisions of this Order.

(1) 1869 c. cxli.
(2) S.I. 1997/2534.

RHAN 2

TROSGLWYDDO A GWEITHREDU'R RHEILFFORDD

Trosglwyddo hawliau a rhwymedigaethau i'r Cwmni

3.—(1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a ganlyn yn y Gorchymyn hwn, caiff Daliannau ymrwymo i gytundebau, a rhoi effaith i gytundebau sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo i'r Cwmni, a breinio ynddo, yr holl hawliau, buddiannau a phwerau hynny sydd ganddo yn y rheilffordd neu mewn cysylltiad â hi.

(2) Oni ddarperir fel arall yn y Gorchymyn hwn, o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen—

- (a) mae'r rheilffordd neu unrhyw ran ohoni yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r holl ddarpariaethau statudol a darpariaethau eraill sy'n gymwys i'r rheilffordd ar y dyddiad hwnnw (i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny yn parhau i fod mewn grym ac yn gallu cael effaith); a
- (b) Mae'r Cwmni, gan eithrio Daliannau—
 - (i) yn cael yr hawl i gael budd o'r rheilffordd neu unrhyw ran ohoni, ac i arfer yr holl hawliau, pwerau a breintiau sy'n ymwneud â'r rheilffordd neu unrhyw ran ohoni; a
 - (ii) yn ddarostyngedig i'r holl rwymedigaethau statudol neu rwymedigaethau eraill sy'n ymwneud â'r rheilffordd neu unrhyw ran ohoni (i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny yn parhau mewn grym ac yn gallu cael effaith) gyda Daliannau yn cael ei ryddhau rhag pob cyfryw rwymedigaeth.

Trosglwyddo'r rheilffordd gan y Cwmni

4.—(1) Ar unrhyw adeg ar ôl y dyddiad trosglwyddo caiff y Cwmni, gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru, werthu neu lesio'r rheilffordd, neu ran ohoni, i unrhyw drosglwyddai o dan y telerau a'r amodau hynny a gytunir rhwng y Cwmni a'r trosglwyddai.

(2) Oni ddarperir fel arall gan y Gorchymyn hwn:

- (a) bydd yr ymgymeriad a drosglwyddwyd yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r holl ddarpariaethau statudol a'r darpariaethau eraill sy'n gymwys iddo ar ddyddiad y les neu'r gwerthiant (i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny yn parhau mewn grym ac yn gallu cael effaith); a

PART 2

TRANSFER AND OPERATION OF THE RAILWAY

Transfer of rights and obligations to the Company

3.—(1) Subject to the following provisions of this Order, Holdings may enter into and carry into effect agreements providing for the transfer to, and vesting in, the Company of all such rights, interests and powers as it may have in or in respect of the railway.

(2) Except as may be otherwise provided in this Order, as from the transfer date—

- (a) the railway or any part of it continues to be subject to all statutory and other provisions applicable to the railway at that date (in so far as those provisions continue in force and are capable of taking effect); and
- (b) the Company is to the exclusion of Holdings—
 - (i) entitled to the benefit of, and to exercise all rights, powers and privileges relating to the railway or any part of it; and
 - (ii) subject to all obligations statutory or otherwise relating to the railway or any part of it (in so far as those provisions continue in force and are capable of taking effect) with Holdings released from all such obligations.

Transfer of railway by the Company

4.—(1) At any time after the transfer date the Company may, with the consent of the Welsh Ministers, sell or lease the railway, or part of it, to any transferee on such terms and conditions as may be agreed between the Company and the transferee.

(2) Except as may be otherwise provided by this Order:

- (a) the transferred undertaking will continue to be subject to all statutory and other provisions applicable to it at the date of the lease or sale (in so far as those provisions continue in force and are capable of taking effect); and

(b) mae'r trosglwyddai, gan eithrio'r Cwmni, yn cael yr hawl i gael budd o'r ymgymriad a drosglwyddwyd, ac i arfer yr holl hawliau, pwerau a breintiau sy'n ymwneud â'r ymgymriad a drosglwyddwyd, ac yn ddarostyngedig i'r holl rwymedigaethau statudol neu rwymedigaethau eraill sy'n ymwneud â'r ymgymriad a drosglwyddwyd, gyda'r Cwmni yn cael ei ryddhau rhag pob cyfryw rwymedigaeth.

(3) Pan fo cytundeb wedi ei wneud yn rhinwedd paragraff (1) bydd cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at y Cwmni yn cynnwys cyfeiriadau at y trosglwyddai.

(4) Mae paragraffau (1), (2) a (3) yn cael effaith yn ystod parhad unrhyw les a roddwyd, ac o ddyddiad gweithredol unrhyw werthiant, o dan y pwerau a roddir gan yr erthygl hon.

Y pŵer i weithredu ac i ddefnyddio'r rheilffordd

5.—(1) Ar y dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym ac ar ôl hynny caiff y Cwmni neu'r trosglwyddai, yn ôl y digwydd, weithredu a defnyddio'r rheilffordd fel system drafnidiaeth, neu ran o system drafnidiaeth, ar gyfer cludo teithwyr a nwyddau.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), y pŵer symud i'w ddefnyddio ar y rheilffordd yw ager, diesel-trydan, diesel, peiriant tanio mewnlol, trydan-batri neu'r pŵer symud arall hwnnw y caiff y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd ei gymeradwyo'n ysgrifenedig.

(3) Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn sy'n awdurdodi defnyddio pŵer trydan fel pŵer symud ar y rheilffordd oni ddaw'r pŵer hwnnw o fatris storio neu o ffynhonnell gynhyrchu a gynhwysir yn gyfan gwbl yn y peiriannau a'r cerbydau ac sy'n cael ei gludo ynddynt.

(4) Os defnyddir pŵer trydan fel pŵer symud ar y rheilffordd, rhaid peidio â defnyddio'r cyfryw bŵer trydan mewn modd a fyddai'n peri, neu'n debygol o beri, unrhyw ymyrraeth ag unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig neu wrth ddefnyddio cyfarpar o'r fath.

(5) Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn, nac mewn unrhyw ddeddfiad a gymhwysir ganddo, yn rhagfarnu nac yn effeithio ar weithrediad Rhan 1 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993(1).

(b) the transferee is, to the exclusion of the Company entitled to the benefit of, and to exercise all rights, powers and privileges relating to the transferred undertaking and subject to all obligations, statutory or otherwise, relating to the transferred undertaking, with the Company released from all such obligations.

(3) Where an agreement has been made by virtue of paragraph (1) references in this Order to the Company shall include references to the transferee.

(4) Paragraphs (1), (2) and (3) have effect during the continuance of any lease granted, and from the operative date of any sale, under the powers conferred by this article.

Power to operate and use railway

5.—(1) On and after the date the Order comes into force the Company or transferee, as the case may be, may operate and use the railway as a system, or part of a system, of transport for the carriage of passengers and goods.

(2) Subject to paragraphs (3) and (4), the motive power to be used on the railway is to be steam, diesel-electric, diesel, internal combustion, electric-battery or such other motive power as the Office of Rail and Road may in writing approve.

(3) Nothing in this Order authorises the use of electrical power as motive power on the railway unless such power is obtained from storage batteries or from a source of generation entirely contained in, and carried along with, the engines and carriages.

(4) If electrical power is used as motive power on the railway, such electrical power must not be used in such manner as to cause, or be likely to cause, any interference with any electronic communications apparatus or with the use of such apparatus.

(5) Nothing in this Order, or in any enactment applied by this Order, prejudices or affects the operation of Part 1 of the Railways Act 1993(1).

(1) 1993 p. 43. Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38), Deddf Diogelwch y Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 (p. 43) a Deddf y Rheilffyrdd 2005 (p. 14).

(1) 1993 c. 43. As amended by the Transport Act 2000 (c. 38), Railways and Transport Safety Act 2003 (c. 43) and the Railways Act 2005 (c. 14).

RHAN 3
LLYWODRAETHIANT

Diwygio Deddf 1869

6.—(1) Mae Deddf 1869 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 22—

(a) ar ôl “time to time” mewnosoder “increase or”, a

(b) yn lle “three” rhodder “five”.

(3) Yn adran 23, yn lle “five hundred” rhodder “twenty-five”.

(4) Yn adran 25, ar ôl “herein-before contained for” mewnosoder “increasing or”.

Caiff cyfranddalwyr alw cyfarfodydd eithriadol

7. Mae adran 70 (caiff cyfranddalwyr ei gwneud yn ofynnol i gynnal cyfarfodydd eithriadol) o Ddeddf Cydgrynhoi Cymalau Cwmnïau 1845(1) yn gymwys i Ddeddf 1869 ond fel pe bai yn lle “for the prescribed number of shareholders, holding in the aggregate shares to the prescribed amount, or, where the number of shareholders shall not be prescribed, it shall be lawful for twenty or more shareholders” y rhoddir “for a shareholder or shareholders”.

RHAN 4
AMRYWIOL

Cymrodeddu

8. Cyfeirir unrhyw wahaniaeth o dan unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, oni wneir darpariaeth wahanol ar ei gyfer, at un cymrodeddwr y bydd y partïon yn cytuno arno, neu yn niffyg cytundeb, a benodir ar gais y naill neu'r llall o'r partïon (wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r parti arall) gan Lywydd Sefydliad y Peirianwyr Sifil am y tro, a bydd yr un cymrodeddwr hwnnw yn dyfarnu ar y gwahaniaeth hwnnw.

Julie James

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion
Cymru
23 Mawrth 2022

PART 3
GOVERNANCE

Amendment of the 1869 Act

6.—(1) The 1869 Act is amended as follows.

(2) In section 22—

(a) after “time to time” insert “increase or”, and

(b) for “three” substitute “five”.

(3) In section 23, for “five hundred” substitute “twenty-five”.

(4) In section 25, after “herein-before contained for” insert “increasing or”.

Shareholders may call extraordinary meetings

7. Section 70 (extraordinary meetings may be required by shareholders) of the Companies Clauses Consolidation Act 1845(1) applies to the 1869 Act but as if for “for the prescribed number of shareholders, holding in the aggregate shares to the prescribed amount, or, where the number of shareholders shall not be prescribed, it shall be lawful for twenty or more shareholders” there were substituted “for a shareholder or shareholders”.

PART 4
MISCELLANEOUS

Arbitration

8. Any difference under any provision of this Order, unless otherwise provided for, shall be referred to and settled by a single arbitrator to be agreed between the parties or, failing agreement, to be appointed on the application of either party (after giving notice in writing to the other) by the President for the time being of the Chartered Institute of Arbitrators.

Minister for Climate Change, one of the Welsh
Ministers
23 March 2022

(1) 1845 p. 16. Mae'r Ddeddf hon wedi ei hymgorffori gyda Deddf 1869, ac yn ffurfio rhan ohoni, yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf 1869.

(1) 1845 c. 16. This Act is incorporated with, and forms part of the 1869 Act by virtue of section 2 of the 1869 Act.

©[©] Hawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.


© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/375>

ISBN 978-0-348-39282-1



9 780348 392821